

Oedfaon a Chyfarfodydd y Fro dros yr haf

Dydd Sul, Awst 5	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa undebol yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00. • Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10.30. • Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 10.00.
Dydd Sul, Awst 12	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. • Bydd y Parch Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanfair am 2.00. • Bydd oedfa wedi ei threfnu yn Llanefydd am 10.00.
Dydd Mercher, Awst 15	<ul style="list-style-type: none"> • Adnabod Cymdeithasol – Taith gerdded hamddenol. Cychwyn ger y Capel yn Llanefydd am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
Dydd Sul, Awst 19	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. • Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00. • Bydd Oedfa Thema yn Henllan am 10.00. • Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 10.00.
Dydd Sul, Awst 26	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Parch James Clarke yn arwain oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10.00, yn Henllan am 2.00 ac yn Llanefydd am 6.00. • Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
Dydd Sul, Medi 2	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd yn Llansannan am 10.00 pryd y bydd Alan a Nerys Morgan yn cyflwyno Anest i gael ei bedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10. • Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. • Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. • Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain, a'r oedolion am 2.00. • Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00. • Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00. • Bydd Oedfa'r Fro yn ail-gychwyn yn Llansannan am 6.00.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Gorffennaf 2012

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 2il, ond os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair (870632) fel arfer.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! “Hybu gwychter bywyd gwledig” yw nod y Sioe Frenhinol Amaethyddol a dymunwn yn dda i bawb sydd ar eu ffordd yno'r penwythnos yma. Mae'n addo gwell tywydd o leia' a gobeithio y bydd yn fwy sefydlog o'r diwedd. Gobeithio y caiff bawb Sioe lwyddiannus.

Mae'r Sioe yn ddathliad o fywyd cefn gwlad ac mae'n siop ffenestr ardderchog i'r byd amaethyddol yn ei holl amrywiaeth. Mae hynny yn sicr yn rhan fawr o apêl y Sioe; sef y ffaith bod cymaint o amrywiaeth i'w weld yno. Er mai'r anifeiliaid sy'n cael y sylw, 'does na ddim byd sydd yn fwy rhyfeddol na phobl!

Mae'n rhaid cael nod mawr a phwrpas aruchel i gynnal undod trwy amrywiaeth! Dyna sy'n gwneud y Sioe – mae gan bob creadur a pheiriant, pob hedyn a choeden eu lle yn y cyfanwaith godidog. Dim sioe i'r defaid, neu'r teirw, neu'r dyfednod neu'r peiriannau neu'r hadau yw hi – mae pob peth a phawb yn uno i ‘Hybu gwychter bywyd gwledig’. Pob rhan yn dangos ei hun ar ei gorau a phawb yn canmol y gorau ym mhob peth.

Ai dyna sy'n gwneud yr Eglwys hefyd? Sut ‘ffenestr siop’ i nod yr Efengyl yw ein Bro? A fyddem ni yn gallu dangos cyfoeth o amrywiaeth dan yr un nod mawr o ‘Ogoneddu Iesu, gwasanaethu'n cymunedau a chyfeirio ein holl adnoddau i'w ddyrchafu’?

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn hyd yma rwy'n diolch i Dduw am holl amrywiaeth y gweithgarwch sydd gennym ac am bawb sydd wedi cael eu nerthu gan Dduw i ‘Ogoneddu Iesu, gwasanaethu'n cymunedau a chyfeirio ein holl adnoddau i'w ddyrchafu’. Ond y diolch pennaf dwi'n ei roi ydi am y doniau amrywiol sydd wedi cael eu rhoi gan yr Arglwydd i chi fel aelodau a chyfeillion. Rhyfeddol yn wir yw gwaith gras yr Arglwydd ym mywydau y rhai sy'n ymddiried ynddo. Dwi'n diolch am gael cystal ffenestr siop ar waith Duw, sef gwaith ei Ysbryd yn eich bywydau chi sy'n dystion iddo yn y Fro hon.

Fel y mae'r Sioe hefyd yn ddathliad gwych o arglwyddiaeth a phartneriaeth y ddynoliaeth a'r greadigaeth, felly hefyd y mae'r Eglwys yn ddathliad o berthynas o Arglwyddiaeth a phartneriaeth sydd rhwng yr Arglwydd Iesu a'i bobl. Diolchwn fod gan yr Arglwydd ei gynllun ar gyfer pob un ohonom a'i fod wrthi'n brysur, trwy ei Ysbryd a'i air, yn ein paratoi ar gyfer y gogoniant sydd ganddo ar ein cyfer, a'n haddasu i'w wasanaethu Ef yn y byd.

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Y Fro	
Sul yma	Cynhelir Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6.00 pryd y byddwn yn edrych yn ôl dros y gyfres ddiwethaf yng nghwmni Aneurin a Rhodri. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
Mercher	Cyfarfod i aelodau'r Tim Addoli yn y Granar am 6.30 a chyfarfod i arweinyddion y grwpiau am 8.00.
Iau	Astudiaeth Feiblaidd yn Llanefydd am 7.30.
Sul nesaf	Oedfa o Fawl yng nghwmni Andras Iago yng Nghefn Meiriadog am 6.00, a Barbeciw i ddilyn.

Llanfair a Chefn Meiriadog	
Sul yma	Bydd Elinor yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.
Sul nesaf	Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
Sul, Awst 5ed	Cynhelir Te Pnawn i godi arian i Apêl Guatemala yng Nghanolfan Gymunedol Llanfair o 2.30 – 5.00.
Mawrth, Awst 14eg	Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb. Enwau i Haf (582215) erbyn nos Lun (13eg), os gwelwch yn dda.

Llansannan	
Sul yma	Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
Sul nesaf	Bydd Andras Iago yn arwain oedfa am 10.00.

Henllan a Groes	
Sul yma	Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
Sul nesaf	Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Saron a Pheniel	
Sul yma	Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
Sul nesaf	Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn	
Sul yma	Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
Sul nesaf	Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain	
Sul yma	Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac i'r oedolion yn Llanefydd am 11.15.
Sul nesaf	Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
Gwener, Awst 3ydd	Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r rhai hynny o'r Ofalaeth sydd heddiw mewn profedigaeth. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Susannah Williams (Llansannan) ac Emlyn Davies (Tanyfron) yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at Annie Griffiths (Llansannan) sydd yn yr Inffirmari. Cofiwn hefyd am Ceinlys Jones, Penrhwylyfa a dreuliodd noson yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf, ac am Enid Jones (Llansannan) sydd yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda ond heb fod yn dda y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll, fel eraill o'r ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Mae eraill yn mynd trwy gyfnodau digon anodd ar hyn o bryd. Cofiwn amdanynt hwythau a gweddiwn y byddant yn profi nerth a chynhaliaeth yr Arglwydd yn fwy na digon iddynt.
- Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Sioned Jones (Groes) a Daniel fydd yn priodi yng Nghapel y Groes ddydd Gwener nesaf, ac i Elliw Williams (Llansannan) ac Eryl a fydd yn priodi yn Llansannan ddydd Sadwrn nesaf.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elinor Owen a Sarah Morris sydd wedi eu penodi gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru i rannu'r swydd Cydlynnydd Rhaglen Dorcas!

Apêl Guatemala

Llwyddodd plant Cefn Berain i gasglu £300 tuag at apêl Guatemala yn y Bore Coffi a drefnwyd ganddynt yn ddiweddar. Da iawn chi blant!